

Parth Diogelwch Ysgol a Gwella Mynediad i Ysgol Hamadryad **Adroddiad Ymgynghori**

Cyflwyniad:

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 23 Mawrth a 27 Ebrill 2018. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol os yn bosibl. Derbyniwyd pedwar ymateb gan y cyhoedd, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

Crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law:

4 Ddim yn cefnogi'r cynigion

Mae'r sylwadau ac ymatebion Cyngor Caerdydd wedi'u crynhoi isod. At ddibenion diogelu data, nid yw'r sylwadau llawn wedi'u derbyn, a dim ond y prif rai fydd yn cael eu dangos. Fodd bynnag, mae'r ymatebion wedi ystyried cynnwys llawn pob sylw a ddaeth i law.

Yn ogystal â'r uchod, derbyniom adborth gan 35 o rieni a disgyblion yr ysgol ac rydym wedi ymdrin â'r adborth hwn ar wahân.

Argymhelliad:

Yn sgil yr adborth a ddaeth i law, argymhellir bod y cynllun yn mynd yn ei flaen heb newid (gweler Atodiad 1), yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

Pryderon / Sylwadau a ddaeth i law:

Sylw 1.1:

Sylwadau cychwynnol:-

.....Ers i'r 55 o fflatiau gael eu hadeiladu yn hamadryad, mae'r traffig yn yr ardal wedi cynyddu a'r goryrru hefyd.

Bellach, mae adnoddau/seilwaith yr ardal yn gwrthdaro, fydd yn ac sydd wedi gwneud bywydau preswylwyr yn anodd, yn amlwg nid ydych yn poeni am hynny, neu'n anymwybodol o'r holl ddfrod yr ydych wedi'i achosi!.....

Llythyr Ychwanegol:-

ER ein bod ni'n falch o weld eich bod wedi ail-alinio'r cyrb yn Pomeray St ac wedi gosod llinellau melyn ar gorneli, mae'n ymddangos fel eich bod wedi gwaredu'r holl gyfleusterau parcio yn Ferry Road/Hamadryad Road, sef ardal parcio gorlif Pomeroy St/Hunter St. Os caiff hyn ei waredu a dim parcio fesul parth i'r ardal gyfan, bydd ein sefyllfa gyffredinol yn waeth.

Beth yw'r cynigion ar gynyddu manau parcio i breswylwyr?

Pob dydd Sadwrn mae rhieni plant sy'n chwarae pêl-droed yn llenwi'r ardal gyda cheir gan gynnwys Hamadryad Road. Heb hyn, bydd parcio ar ein strydoedd, yn enwedig ger y parc, yn broblem bob diwrnod o'r wythnos!

Mae gan rai tai yn Pomeroy St ac ati fwy nag un car fesul aelwyd, sut fyddwch chi'n bwriadu gwneud lle i'r holl geir/faniau o ystyried mai dim ond digon o le ar gyfer un cerbyd i bob aelwyd sydd?

Mae nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb, y mae preswylwyr sy'n talu'r dreth gyngor angen gweld eu datrys!

Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth a'ch sylwadau/cyfarfod?

Ymateb:

Sylwadau cychwynnol – Rydym wedi nodi'r sylwadau hyn a byddwn yn eu cadw mewn cof wrth gyflawni'r cynllun.

Llythyr Ychwanegol – Rydym wedi tybio mai cyfeirio at y cyfleusterau parcio ger cyffordd Clarence Embankment / Clarence Road mae'r ymateb wrth drafod cyfleusterau parcio ger cyffordd Ferry Road / Hamadryad Road. Mae'r cyfleusterau parcio wedi'u gwaredu er mwyn sicrhau bod yr ardal llwybr cerdded mabwysiedig hon yn ddiogel i gerddwyr i gael mynediad at yr ysgol. Ni ystyrir y parcio hyn yn barcio diogel a chyfreithlon. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn cynnwys diddymu'r cyfyngiadau parcio ar Clarence Embankment fydd yn creu oddeutu 4 man parcio ychwanegol, fydd yn lleddfu'r golled hon. Mae colli cyfleusterau parcio yn anffodus, ond mae'n rhaid i ddiogelwch defnyddwyr y ffordd sy'n agored i newid (plant ysgol yn yr achos hwn) gael y flaenoriaeth dros ddarpariaeth cyfleusterau parcio. Rydym yn ymdrin â'r mater parcio i breswylwyr ar wahân, ac nid yw'n elfen ar y cynllun diogelwch ar y ffyrdd hwn. Byddwn yn ystyried y sylwadau hyn mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar gyfer darpariaeth parcio i breswylwyr yn yr ardal.

Sylw 1.2:

..... Hoffwn nodi y bydd mwy o ddefnydd ar y fynedfa/allanfa i'r ardal maes parcio staff (ar gyfer adeilad Hamadryad) gan mai dyma hefyd yw'r pwynt mynediad i faes parcio staff arfaethedig yr ysgol.

Does dim sy'n atal rhieni rhag gyrru i mewn i'r maes parcio ar hyn o bryd (ar gyfer adeilad Hamadryad) i godi/gollwng plant sy'n mynd i'r ysgol. Rwy'n poeni hefyd am blant yn croesi mynedfa/allanfa'r maes parcio gan fod gweledded gwael ar y dde wrth adael y car i gerddwyr sy'n croesi'r fynedfa/allanfa.

Ymateb:

Cyfrifoldeb y perchnogion tir a'r Gwasanaeth Ysgolion fydd rheoli traffig i mewn ac allan o'r fynedfa hon, ac nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm dylunio am y pryder hwn, a bydd y fynedfa'n cael ei dylunio i

Parth Diogelwch Ysgol a Gwella Mynediad i Ysgol Hamadryad
Adroddiad Ymgynghori

sicrhau bod llwybr cerdded diogel a phriodol i gerddwyr ar draws y fynedfa. Bydd yr adroddiad hwn, a'r eitem benodol hon, yn cael ei anfon at y tîm Archwilio Diogelwch ar y Ffyrdd a'r Gwasanaeth Ysgolion.

Sylw 1.3:

.....Hoffwn nodi ei bod hi'n ymddangos fel bod camgymeriad ar y cynllun a ddefnyddiwyd o ran y coed, yn benodol y tu allan i rifau 53-49 Pomeroy Street. Cafodd y goeden sydd wedi'i hamlygu'n wyrdd sydd i fod i aros ei chwythu i lawr mewn storm y llynedd, ac mae wedi'i gwaredu heblaw am foncyff 3 troedfedd, a does dim llawer o amser ers i'r goeden sydd wedi'i hamlygu'n goch er mwyn ei gwaredu gael ei phlannu. A allwch chi egluro a fydd coeden newydd yn cael ei phlannu yn lle'r hen foncyff, ac a fydd y goeden ifanc ar y gornel yn cael ei gwaredu, neu'r boncyff yn cael ei waredu'n briodol a'r goeden ifanc yn aros yno? I.....

Ymateb: Rydym wedi trafod mater y goeden sydd wedi'i chwythu i lawr gyda'r adran gynnal a chadw er mwyn iddyn nhw gael ystyried. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm dylunio am y sefyllfa a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynyddu nifer y coed wrth sicrhau na fydd unrhyw effaith andwyol ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

Sylw 1.4:

Fel chi, roeddwn yn siomedig nad oedd manau parcio i breswylwyr ar y cynlluniau. Rwyf i hefyd yn awyddus iawn i gael diweddariad ar sut fydd preswylwyr yn gallu parcio yn y stryd y maen nhw'n byw ynddi, gan nad yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd yn sgil yr heddlu a staff i fusnesau'n parcio yma. Hoffwn gael manylion clir ar leoliad y manau parcio i breswylwyr gan fod galw mawr amdano, a bydd yn sicrhau ein bod ni'n unol â manau preswyl eraill yng Nghaerdydd.

Ymateb: Nid yw parcio i breswylwyr yn rhan o'r ymgynghoriad hwn ac mae'n cael ei ddatrys yn rhan o broses ar wahân. Fodd bynnag, mae'r swyddogion perthnasol sy'n delio â'r prosesau parcio i breswylwyr wedi cael gwybod a bydd yr adroddiad hwn, a'r eitem benodol hon, yn cael eu hanfon atynt.

Sylw 1.5: Adborth gan Ddisgyblion yr Ysgol a Rhieni

Derbyniwyd adborth gan 35 o rieni a disgyblion yr ysgol, a gellid ei grynhoi fel a ganlyn.

.....

- **Sylw 1.5.1 – Help i groesi ger y gyffordd hon**
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei ddatrys gan yr Adran Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.2 – Nid yw'r groesfan ar y bont ar gyfer beics, mae croesfan feics a llwybr feicio yn y lleoliad hwn yn bwysig er diogelwch.**
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei ddatrys gan Adran Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.3 – Person lolipop ger y groesfan gan fod ceir sy'n dod oddi ar yr A4232 yn aml yn methu â stopio ac yn aml yn gyrru'n gynt na'r cyfyngiad cyflymder.**
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei ddatrys gan Adran Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.

Parth Diogelwch Ysgol a Gwella Mynediad i Ysgol Hamadryad
Adroddiad Ymgynghori

- **Sylw 1.5.4** – *Beicwyr yn defnyddio'r llwybrau beics.*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Polisi/Strategaeth. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.5** – *Llwybrau beics priodol – manau parcio a cherdded priodol*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Polisi/Strategaeth. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.6** – *Gwella'r palmentydd ar hyd yr afon, ni allaf gerdded ar y llwybr gyda choets dwbl oherwydd y boncyffion coed.*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Polisi/Strategaeth. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.7** – *Llwybrau beics, croesfannau sebra*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Polisi/Strategaeth. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.8** – *Goleuadau stryd*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Goleuadau Stryd. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.9** – *Rheilen ar hyd y bont, llwybr beics/sgwter ddynodedig*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Polisi, Strategaeth a Chynllunio. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.
- **Sylw 1.5.10** – *Mynediad haws at y safle gyda char – ar fws os yw'n bosibl – ond byddai hyn yn lleihau nifer y traffig sy'n teithio i lawr yr 'ardal goch'. Byddai pont dros yr afon yn lleihau'r amser teithio yn sylweddol ac yn gwneud teithio gwyrdd yn llawer yn fwy hygyrch.*
Ymateb – Mae hwn yn fater cyffredinol nad yw'n benodol berthnasol i osodiad y cynllun arfaethedig; mae'n fater sy'n cael ei datrys gan yr Adran Polisi a Strategaeth. Mae'r sylwadau wedi'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol, a byddant hefyd yn cael eu hystyried gan y tîm dylunio.

Atodiadau

Atodiad 1 – Hysbysiad Safle 2 – Cynlluniau'r Cynllun (Ar ôl ymgynghori)

Atodiad 1

Hysbysiad Safle 2 – Cynlluniau'r Cynllun (Ar ôl ymgynghori)